Mae **Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru** yn un o blith 47 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DG ac yn un o blith y 6 Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru.
Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig, yn dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion.
Mae **Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru** yn:

- buddsoddi yn y dyfodol drwy helpu pobl o bob oed i werthfawrogi a deall bywyd gwyllt yn well;
- prynu a rheoli gwarchodfeydd natur;
- ymgymryd â phrosiectau sydd o fudd i fywyd gwyllt mewn trefi ac yng nghefn gwlad;
- herio datblygiadau sy'n bygwth cynefinoedd bywyd gwyllt;
- gweithio gyda'r cyhoedd, cymunedau, perchnogion tir, cynghorau lleol ac eraill i warchod bywyd gwyllt ar gyfer y dyfodol.

Os hoffech helpu i gefnogi cadwraeth bywyd gwyllt drwy ddod yn aelod neu'n wirfoddolwr, neu os hoffech wybodaeth am warchodfeydd natur lleol, cysylltwch â:

**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**
**Pencadlys ac Aelodaeth**
376 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1YE
**01248 351541**
**e-bost: nwwt@wildlifetrustswales.org**
Elusen Gofrestredig: 230772 Cwmni Cyfyngedig: 773995

## www.northwaleswildlifetrust.org.uk

The **North Wales Wildlife Trust** is one of 47 Wildlife Trusts across the UK and one of 6 Welsh Wildlife Trusts.
We are a registered charity, dependent on the support of our members and donations.
The **North Wales Wildlife Trust**

- invests in the future by helping people of all ages to gain a greater appreciation and understanding of wildlife;
- acquires and manages nature reserves;
- undertakes projects to benefit wildlife in towns and countryside;
- challenges developments which threaten wildlife habitats;
- works with the public, communities, landowners, local councils and others to protect wildlife for the future.

If you would like to help support wildlife conservation by becoming a member or volunteer, or would like information about local nature reserves, please contact:

**North Wales Wildlife Trust**
**Headquarters & Membership**
376 High Street, Bangor, Gwynedd LL57 1YE
**01248 351541**
**email: nwwt@wildlifetrustswales.org**
Registered Charity No. 230772 Company No. 773995

## Lleoliad a Mynediad

Lleoliad Eithinog yw Bangor (Gwynedd) rhwng Ffordd Belmont a Ffordd Penrhos yn ffinio ag ysgolion Friars a Chae Top (LL57 2GZ). O'r A55, ar gyffordd 9, dilynwch arwyddion Ysbyty Gwynedd; ewch heibio'r ysbyty ar hyd Ffordd Penrhos am tua 2km nes cyrraedd cylchfan. Trowch i'r chwith i fyny Ffordd Belmont ac yna dilynwch arwyddion Friars. Mae prif fynedfa y warchodfa ar y dde (SH 563713) cyn cyrraedd maes parcio'r ysgol gyda llefydd parcio cyfyngedig ar ochr y lôn. Gellid gyrraedd ar hyd llwybrau cyhoeddus mewn mannau eraill. (Map OL17 cyfres yr Ordnance Survey Explorer).

## Location and Access

Eithinog is located in Bangor (Gwynedd) between Belmont Road and Penrhos Road and is next to Friars and Cae Top schools (LL57 2GZ). From the A55 Junction 9 follow signs for Gwynedd Hospital ; carry on past the hospital on Penrhos Road for approximately 2km until a roundabout, and turn left up Belmont road and then follow signs for Friars. The reserve main gate (SH 563713) is on the right before the school car park. Limited parking is available on the roadside. There is access by public footpaths at other points (Ordnance Survey Explorer Map OL17).

**Taflen wedi nodi gan: / Leaflet sponsored by:**

TOYOTA

TOYOTA MOTOR MANUFACTURING (UK) LTD

Tir-a-Môr cyf.

Cymunedau a Natur
Communities and Nature

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

antenna creative 07772 629063 Papur wedi'i ailgylchu 100% recycled paper

*Ymddiriedolaeth Natur*
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
*Wildlife Trust*

YMDDIRIEDOLAETHAU natur CYMRU
WILDLIFE TRUSTS WALES

Gwarchodfa Natur
# *Eithinog*
Nature Reserve

Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

## Y dyfodol

Defnyddir Eithinog heddiw gan gerddwyr a pherchnogion cŵn ac lle gall plant chwarae. Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn annog defnydd cyfrifol o'r dolydd glaswellt, ac mae'n gweithio i wella'i photensial yn le i ymlacio ynddi, i ddysgu amdani, i'w fwynhau ac i sicrhau cadwraeth natur. Cydreolwn hi gyda'r gymuned leol ond gyda chymorth anifeiliaid pori.

## The future

Eithinog is now well used by walkers, dog walkers and children playing. The North Wales Wildlife Trust encourages the responsible use of the fields, and works to enhance its potential as a place to relax, learn, enjoy and conserve nature. We work with the local community to manage the fields, helped by the use of grazing animals.

## Ymweld â Eithinog

Mae'r warchodfa yn cynnwys caeau agored sy'n codi a gostwng, ambell fryn a choetir a mannau gwlybion. Gall y llwybrau fod yn fwdlyd ar brydiau – argymhellwn wisgo esgidiau priodol. Mae yma nifer o ffiniau gyda chlwydi yn eu gwahanu. Talwch sylw i'r hysbysiadau os gwelwch yn dda am fod anifeiliaid mewn rhai mannau.

## Visiting Eithinog

The reserve consists of open, generally undulating, fields with some slopes and wet areas and woodland. Paths may be muddy at times - appropriate footwear is recommended. There are several internal boundaries with gates. Please take heed of notices as there may be stock in some fields.

**PERCHNOGION CŴN**

Os gwelwch yn dda...
Byddwch yn berchennog cyfrifol ar eich ci
Cadwch eich ci ar dennyn neu dan reolaeth glos
Codwch faw eich ci
Cymerwch sylw o'r arwyddion
Byddwch yn ymwybodol o dda byw
Byddwch yn ymwybodol o ddefnyddwyr eraill
Mwynhewch!

**DOGGY 'DO's**

Please...
Be a responsible dog owner
Keep your dog on a lead or under close control
Pick up your dog mess
Take notice of signs
Be aware of stock
Be aware of other users
Enjoy!

# Eithinog

Yr enw lleol ar y dolydd glaswellt sydd ar gyrion Bangor yw Eithinog am y caeau dwyreiniol a Chaeau'r Briwas ar y rhai gorllewinol. Yn 1812, sefydlwyd bragdy bychan yma. Gellid gweld ei simdde o hyd i'r de-orllewin o'r warchodfa. Bu'r bragdy'n cynhyrchu cwrw am dros 90 o flynyddoedd ond dymchwelwyd yr adeiladau bron yn gyfan ym 1982.

Yn hanesyddol, rhan o Fferm Tros y Canol oedd Eithinog, gydag amaethu traddodiadol wedi digwydd yma am ganrifoedd. Medrwyd osgoi dylanwadau'r newidiadau mewn amaethu ac am i'r tir gael ei neilltuo ar gyfer adeiladwaith tai yn gynnar yn y 1950au, fe'i achubwyd eilwaith. Yn 1994 cafwyd y caniatad i ddechrau adeiladu ar y safle. Ond roedd y bobl leol a fu'n defnyddio'r safle am ddegawdau ar gyfer adloniant yn ymwybodol o werth y safle a nhw a frwydrodd i'w hachub.

Wedi 15 mlynedd o fynd i gyfraith ac o weithredu'n uniongyrchol, cafwyd arolygon ecolegol ar Eithinog. Yn 2008, sicrhawyd bod rhan fwyaf tir y warchodfa yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a daeth yn eiddo i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn 2012.

The local name for the grassland meadows on the edge of Bangor is Eithinog for the eastern fields, and Brewery Fields for the western fields. In 1812, a small brewery was established. Its chimney can still be seen to the south west of the reserve. The brewery continued to produce beer for over 90 years but was mostly demolished in 1982.

Historically part of the long gone Tros y Canol Farm, Eithinog was farmed traditionally for centuries. It escaped the impacts of agricultural change, and its designation for housing in the early 1950s hindered further changes. In 1994 the housing plans were implemented and building began. Local people, who had used the site for recreational purposes for decades, were conscious of its value and battled to protect it.

Fifteen years of legal challenges, direct action and ecological surveying followed. In 2008 most of the land was designated as a Site of Special Scientific Interest and was acquired by the North Wales Wildlife Trust in 2012.




Maredudd ap Rheinallt

Gwersyll brotest 1998
Protest camp 1998

Gwyn blaen oren
Orange Tip butterfly

Llygoden bengron goch
Bank vole

Nico
Goldfinch

## Bywyd gwyllt yn Eithinog

Mae amrywiaeth cynefinoedd Eithinog yn cynnig yr amgylchedd cywir er mwyn ffyniant amrywiaeth o flodau a ffyngoedd.

Gellid gweld amrywiaeth eang o blanhigion yn y dolydd glaswellt gydol y flwyddyn. Mae Pwrs y Bugail neu Gribell felen, planhigyn parasitig melyn yn amlwg iawn, ac hefyd Blodyn y Gog, sydd yn fwyd i'r glöyn byw Gwyn blaen oren. Gwelir hefyd y Tegeirian brych yn nifer o'r dolydd glaswellt yn ystod yr haf.

Mae'r amrywiaeth yma yn darparu bwyd a llety i lawer o drychfilod a hwythau yn eu tro yn mynd yn fwyd i'r adar. Bydd heidiau'r Nico neu Deiliwr Llundain yn bwyta had y Pengaled benddu neu'r Gramenog ar ddiwedd yr haf. Mae aeron a mannau lle gall adar nythu a chlwydo ynddynt yn y cloddiau yn croesawu Llwydiaid y Gwrych ac ymwelwyr haf fel y Siff Saff. Bydd y mamaliaid bychain, llygoden y maes a'r llygoden goch hefyd yn cartrefu yn y cloddiau a rheini wedyn yn denu tylluanod ac adar ysglyfaethus eraill. Yn y gaeaf, gellid gweld y Coch dan adain a'r Socan eira neu Gaseg y Ddrycin yn heidio o gwmpas y warchodfa.

Fel arfer mae ffyngoedd, yn wahanol i blanhigion cyffredin, yn ymddangos yn gyrff ffrwythlon o'r cychwyn er mwyn iddynt allu gwasgaru eu had neu sbôr. Y term am gorff y ffwng yw 'meiseliwm' ac mae'n byw o dan y pridd, mewn perygl o gael ei ddinistrio gan anifeiliaid yn pori, a'i niweidio gan gerbydau ac arydr. Oherwydd ei chefndir, cafodd Eithinog ei hachub rhag peryglon felly. O ganlyniad, mae yma gasgliad mor bwysig o ffyngoedd nes i'r safle gael ei neilltuo yn Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ar ddiwedd yr haf, mae yma nifer o ffyngoedd lliwgar ond bychain, Capiau Cwyr a Ffwng Pastwn, ond hefyd Tagellau Binc a Tafodau'r Ddaear.

## Wildlife at Eithinog

The variety of habitats at Eithinog provides the right conditions for many flowers and fungi.

A wide range of plants can be seen in the grassland throughout the year. Yellow Rattle, a yellow flowered parasitic plant is very noticeable, as is Lady's Smock, the food plant of the Orange Tip butterfly. Common spotted Orchid can also be seen in several of the fields in summer.

This variety provides food and habitat for many insects which, in turn, support the birdlife. Flocks of Goldfinch feed on Black Knapweed seed heads in late summer. The hedge provides berries, nesting sites and perches for birds such as Dunnock and summer visiting birds such as the Chiffchaff. Voles and shrews are also found in the hedges and these small mammals, in turn, support owls and other birds of prey. In winter flocks of Redwing and Fieldfare can be seen around the reserve.

Fungi, unlike plants, usually appear as fruiting bodies designed to spread their spore. The term for the fungi body is 'mycelium' and these occur underground and are susceptible to heavy stock use, vehicle damage and ploughing. Eithinog's history has protected it from such hazards, resulting in a collection of fungi so important that the site was designated as a Site of Special Scientific Interest. From late summer there are many, often colourful but small, Wax Caps and Fairy Clubs, but also Pink Gills and Earthtongues to be seen.

Lluniau gan / Images by North East Wildlife
os na benodwyd fel arall / unless otherwise stated.



Cribell felen
Yellow rattle

Mareddud ap Rheinallt

Ffwng Cwrel
Coral Fungi